OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 537

## Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005

### RHAN 5

YR ARDOLL

**Penderfynu a oes angen lleihau'r addasiad braster menyn tuag i lawr o ran danfoniadau**

**25.**—(1) Ar ôl i bob blwyddyn gwota ddod i ben, mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol benderfynu ar —

(a) cyfanswm y danfoniadau i brynwyr; a

(b) cyfanswm y cyfryw ddanfoniadau ar ôl addasiad ar gyfer cynnwys braster menyn yn unol ag Erthygl 10(1) Rheoliad y Comisiwn.

(2) mae'n rhaid gwneud penderfyniad o dan baragraff (1) drwy gyfeirio at y crynodebau y mae'n rhaid i brynwyr eu cyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion Erthygl 8(2) Rheoliadau'r Comisiwn.

(3) Os na chyflwynodd prynwr y crynodebau sy'n ofynnol felly ar gyfer unrhyw flwyddyn gwota neu os na all ddarparu'r cyfryw brawf o faint y llaeth a ddanfonwyd ato neu ati yn y flwyddyn honno ag y gall y Cynulliad Cenedlaethol yn rhesymol ei fynnu at ddibenion y Rheoliadau hyn, mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion paragraff (1) —

(a) penderfynu ei hun ar y maint hwnnw o laeth yn seiliedig ar yr holl wybodaeth sydd ar gael iddo at ddibenion cyfrifo unrhyw ardoll sy'n daladwy ar ddanfoniadau a wnaed i'r prynwr hwnnw; a

(b) hysbysu'r prynwr o'i benderfyniad.

(4) Os bydd y maint y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(a) yn fwy na'r maint y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(b), mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gyfrifo faint y mae angen lleihau'r holl addasiadau braster menyn tuag i lawr a wnaed cyn hynny yn gymesur er mwyn cynyddu'r maint y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(b) fel ei fod yn cyfateb i'r cyfanswm y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(a).

(5) Os bydd paragraff (4) yn gymwys, mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol —

(a) hysbysu pob prynwr bod unrhyw addasiadau braster menyn tuag i lawr a wnaed ganddynt yn y danfoniadau atynt wedi'u lleihau; a

(b) nodi'r lleihad.

(6) Os bydd y maint y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(b) yn cyfateb i'r un y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(a) neu os bydd yn fwy nag ef, mae'n rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol hysbysu pob prynwr nad oes angen lleihau unrhyw addasiadau braster menyn tuag i lawr fel hyn.

(7) Yn y rheoliad hwn, ystyr "addasiad braster menyn tuag i lawr", o ran danfoniadau at brynwr, yw addasiad i faint y danfoniadau ar gyfer cynnwys braster menyn sy'n arwain at y maint hwnnw yn cael ei leihau at ddibenion cyfrifo'r ardoll yn unol ag Erthygl 10(2) Rheoliad y Cyngor.